ADRAN
YSTADAU STRATEGOL

11 Plas Melin

Westbourne Road, Yr Eglwys Newydd,
Caerdydd CF14 2BT

Safle Siop – Ar osod

Rhaid cyflwyno pob cynnig erbyn 8 Mehefin 2018

This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

Gweithio dros Gaerdydd, gweithio gyda'n gilydd
Working for Cardiff, Working together

ADRAN
YSTADAU STRATEGOL

Lleoliad yng Nghaerdydd





Gweithio dros Gaerdydd, Gweithio gyda'n gilydd
Working for Cardiff, Working together

ADRAN
YSTADAU STRATEGOL

Adeilad

Maint y siop: tua 35 m.sg / 377 m.sg

Maint y gegin/ystafell staff: tua 9 m.sg / 97 m.sg

Cyswllt:

Tom Griffiths (Syrfëwr Graddedig)
Ffôn : 02920 873787
thomas.griffiths@caerdydd.gov.uk

Telerau Arfaethedig y Brydles

Cyfnod	Prydles am gyfnod o 3-5 mlynedd (o ddyddiad i'w gytuno).
Defnydd	Gellir defnyddio'r safle ar gyfer masnachu (Defnydd Dosbarth A1) o fewn y Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd presennol. Rhaid i'r ddefnydd gydweddu â siopau cyfagos eraill.
Rhent	Pennwyd yn ôl cyflwyniadau tendr
Trwsio	Y lesddeiliad i fod yn gyfrifol am yr holl atgyweiriadau mewnol, addurno a pharatoi'r adeilad gan gynnwys trwsio'r holl ddrysau, ffenestri, blaen y siop a'r caeadau rholio. Y Cyngor fydd yn gyfrifol am atgyweiriadau allanol eraill.
Yswiriant	Y lesddeiliad i fod yn gyfrifol am yswirio'r eiddo'n ddigonol drwy gwmni yswiriant a gymeradwywyd gan Drysorydd y Ddinas a'r Sir.
Alldaliadau	Y lessdeiliad i fod yn gyfrifol am dalu ardrethi, taliadau dŵr, trydan ac asesiadau eraill a osodir ar y safle.
Arall	Y brydles i fod yn amodol ar delerau ac amodau eraill fel y mae Prif Swyddog Cyfreithiol y Cyngor yn eu hystyried yn briodol.
Costau	Y lesddeiliad i wneud cyfraniad o £1,125.00 at gostau rhesymol tirfesur a chyfreithiol y Cyngor.

ADRAN
YSTADAU STRATEGOL

Rydw i/Rydym ni .....wedi darllen yr amodau gwerthu ynghlwm a thrwy hyn yn cynnig, yn amodol ar gontract, swm rhent o:
£ ..... (punt) ..... (ceiniog)
(£ : c) y mis ag eithrio TAW

Rydw i/Rydym ni'n deall ein bod yn cyflwyno'r cynnig hwn ar ein traul ni ein hunain ac nad yw'r Cyngor yn rhwym i dderbyn unrhyw gynnig.

Rydw i/Rydym ni'n datgan nad ydym yn barti i unrhyw gynllun neu gytundeb lle:

Byddaf i/Byddwn ni yn rhoi gwybod am faint y cynnig i unrhyw berson arall, a/neu

Fy mod/Ein bod wedi gosod maint y cynnig yn unol ag unrhyw drefniant gosod pris.

Rydw i/Rydym ni'n derbyn fod hawl gan y Cyngor i ganslo'r contract ac i adennill gennym swm unrhyw golled sy'n deillio o ganslo o'r fath os canfyddir y bu gweithred lwgr neu dwyllodrus neu ddiffyg gweithredu a ddenodd y Cyngor mewn unrhyw fodd i ymrwymo i'r contract.

Rydw i/Rydym ni'n cytuno, cyn derbyn y cynnig hwn, y byddwn yn cael cyfle i egluro swm y cynnig neu i dynnu'r cynnig yn ôl os bydd unrhyw amheuaeth ynghylch maint y cynnig hwn.

Rydw i/rydym ni'n cytuno na fydd ychwanegu unrhyw amodau at y cynnig hwn neu unrhyw addasiadau heb eu hawdurdodi i unrhyw un o'r manylion yn effeithio ar y testun gwreiddiol ond mae'n bosib y bydd yn peri i'r cynnig gael ei wrthod.

Rydw i/Rydym ni'n cytuno y bydd y cynnig yn aros ar agor i'w dderbyn gan y Cyngor ac na chaiff ei dynnu nôl gennym am gyfnod o 28 diwrnod yn dilyn y dyddiad olaf a bennwyd ar gyfer derbyn cynigion neu unrhyw estyniad a hysbyswyd wedi hynny.

Rydw i/Rydym ni'n tystio bod hwn yn gynnig bona fide.

Rydw i/Rydym ni'n cytuno i dalu ffïoedd y syrfëwr o £1,125.00

<u>Nid cynnig rhwymol yw hwn ac mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i beidio â derbyn unrhyw gynnig a ddaw i law.</u>

ADRAN
YSTADAU STRATEGOL

Cyfeiriad	
Ffôn	
Enw	
Llofnod	
Dyddiad	
Enw'r Tyst	
Llofnod y Tyst	
Dyddiad	
Gwybodaeth Cynllun Busnes (atoder os oes angen mwy o le)	

ADRAN
YSTADAU STRATEGOL

Pan fo'r Cynigydd yn "gorff" neu'n gymdeithas ymgorfforedig, dylai ysgrifennydd y cwmni neu gyfarwyddwr awdurdodedig neu "ymddiriedolwr" lofnodi. Mewn achos o bartneriaeth dylai partner lofnodi. Os yw'n unigolyn, dylai'r perchennog unigol lofnodi.

Ni ddylid datgysylltu'r cynnig hwn a dylid dychwelyd y ddogfen yn gyflawn yn yr amlen a ddarparwyd at:

Tom Griffiths – Syrfëwr Graddedig
Ystadau Strategol, Datblygu Economaidd,
Yst CY6 (Y Cwrt), Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd
Caerdydd CF11 5UW
Ffôn: 02920 873787
E-bost: Thomas.griffiths@caerdydd.gov.uk

Rhaid cyflwyno pob cynnig erbyn 12.00pm ddydd Gwener 8 Mehefin 2018

Os oes angen y ddogfen hon arnoch yn Saesneg, anfonwch e-bost at valuation@cardiff.gov.uk

Mae croeso i chi hefyd ymweld â'n gwefan Ystadau Strategol https://www.cardiffcouncilproperty.com/cy/

Ymwadiad

1. Mae'r wybodaeth uchod ac a geir yn y ddogfen hon wedi ei rhoi fel amlinelliad cyffredinol yn unig fel canllaw i bartïon â diddordeb ac nid yw'n rhan o unrhyw gynnig neu gontract.

2. Mae pob disgrifiad, meintiau, cynlluniau, cyfeiriad at gyflwr a chaniatâd defnydd a meddiannaeth a manylion eraill wedi eu rhoi heb gyfrifoldeb a dylai unrhyw barti â diddordeb beidio â dibynnu arnynt fel datganiadau neu gynrychioliadau ffeithiol, ond dylent fodloni eu hunain drwy archwiliad neu fodd arall o ran cywirdeb pob un ohonynt.

3. Nid oes gan unrhyw un o gyflogeion Cyngor Caerdydd yr awdurdod i wneud neu roi unrhyw sylwadau neu gynnig unrhyw warant o gwbl ynglŷn â'r eiddo/tir hwn.

4. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i beidio â derbyn unrhyw gynnig a ddaw i law.

Gweithio dros Gaerdydd, Gweithio gyda'n gilydd
Working for Cardiff, Working together